IEUAN ap GRUFFUDD LEIAF (fl. ail hanner y 15fed ganrif), bardd

Enw: Ieuan ap Gruffudd Leiaf
Plentyn: Sion Leiaf
Rhiant: Gruffudd Leiaf
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Ray Looker

aelod o un o deuluoedd sir Ddinbych, mab Gruffudd Leiaf ap Gruffudd Fychan ap Gruffudd ap Dafydd Goch, o linach Owain Gwynedd (Peniarth MS. 127 (19)). Cadwyd peth o'i farddoniaeth mewn llawysgrifau, ac yn ei phlith gywyddau ac awdlau i aelodau teulu'r Penrhyn a Nanconwy, cywyddau brud a chrefyddol, cywydd i Aberconwy, cywydd dychan i afon Llugwy am rwystro'r bardd ar ei ffordd i'r Penrhyn, ac ymryson rhyngddo a Guto'r Glyn (*Gwaith Guto'r Glyn*, 17, a Peniarth MS. 99 (624)). Ceir ychydig o farddoniaeth ei dad, Gruffydd Leiaf, ac hefyd Syr Sion Leiaf (ei fab) a Rhobert Leiaf (ei ewythr neu ei fab) yn y llawysgrifau.

Awdur

Ray Looker

Ffynonellau

Jones a Lewis, *Mynegai i Farddoniaeth y Llawysgrifau* (1928)

Ifor Williams a J. Llywelyn Williams, *Gwaith Guto'r Glyn* (1939), 1939

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

Cymru yn hanesyddol, parthedegol, a bywgraphyddol (1875)

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

'Gweirydd ap Rhys,' *Hanes Llenyddiaeth Gymreig, 1300–1650* (1885)

William Owen Pughe, *The Cambrian Biography* (1803)

(Rhoir dyddiadau ychydig rhy ddiweddar gan y pum olaf hyn.)

Edward Davies, *Traethawd ar Enwogion Swydd Feirion, hen a diweddar, yn gelfyddydwyr, beirdd, gwyddonwyr, pregethwyr*, 1870

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Ieuan ap Gruffudd Leiaf

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733261

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu